# MYND A'R INC I'R EIL O MAN

**Gan P. H. JONES**

O YSTYRIED pwysigrwydd *Yr Amserau*, mae'n rhyfedd cyn lleied o sylw a dalwyd i'w hanes. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r prinder o ddefnyddiau crai heblaw'r 575 o rifynnau o'r *Amserau* a gyhoeddwyd rhwng 23 Awst 1843 a 28 Medi 1859.

Rheswm arall yw i Hiraethog greu cryn dipyn o ddryswch drwy gyhoeddi sawl fersiwn gwahanol o hanes y papur, ac i'r fersiynau diweddarach gael eu hystumio oherwydd y ffrae a fu rhwng Hiraethog a John Lloyd, perchennog y papur, yn 1856.

Er bod bylchau difrifol yn y ffynonellau, ceisir amlinellu yma ryw ychydig o hanes masnachol y papur hyd ei symud dros dro i Ynys Manaw yn ystod haf 1848, gan sylwi yn arbennig ar gymhellion ei gefnogwyr. Cawn ei hanes ym Manaw yn y rhan nesaf ac, os caniatâ y golygydd, ceir hanes ei ddychweliad i Lerpwl ac ymgais ei gefnogwyr i'w ymgeleddu mewn rhifyn diweddarach.

Dechrau haf 1848, ar ôl pum mlynedd o ymdrech galed, doedd fawr o lewyrch ar *Yr Amserau*. Oherwydd y dreth ar bapur argaffu a'r dreth stamp o geiniog y copi, roedd yn rhaid codi tair ceiniog neu dair a dimai am bob rhifyn pythefnosol, swm a gyfyngai'n sylweddol iawn ar werthiant y newyddiadur.

Ni lwyddai i ddenu llawer o hysbysebion ychwaith. Fel yn achos *Seren Gomer* ddeng mlynedd ar hugain ynghynt, roedd masnachwyr ac eraill yn amheus o werth hysbysebu mewn newyddiadur Cymraeg.

Atgyfnerthwyd eu hameuon gan gost hysbysebu yn y wasg: er na threthid hysbysebion eraill, roedd yn rhaid talu treth o 1/6 ar bob hysbyseb, beth bynnag fyddai ei hyd, a gyhoeddid mewn newyddiadur neu gylchgrawn.

Gorfodwyd *Yr Amserau* felly i godi 3/6 am yr hysbyseb byrraf, swm a oedd allan o gyrraedd llawer o fasnachwyr.

BYDDAI'R mwyafrif o gyhoeddwyr wedi rhoi'r gorau i'r *Amserau* ymhell cyn 1848. Fe ddigalonnodd John Jones, cyhoeddwr gwreiddiol y papur, o fewn blwyddyn (nid o fewn chwe mis, fel yr honnodd Hiraethog yn ddiweddarach).

Er i'r cylchrediad godi o bedwar cant neu bedwar cant a hanner ym mis Awst 1843 i dros ddeuddeg cant erbyn Mai 1844, 'roedd pob rhifyn yn parhau i beri colled o rai punnoedd.

**Ychwanegwyd at y colledion gan amharodrwydd derbynwyr i dalu eu dyledion, problem a fu'n gyfrifol am dranc nifer cywilyddus o gyhoeddiadau Cymraeg y ganrif ddiwethaf.**

'Roedd pethau'n waeth yn achos newyddiadur na chylchgrawn oherwydd y rheidrwydd o gael cyflenwad digonol o bapur wedi ei stampio cyn dechrau argraffu pob rhifyn. Ni fyddai'r awdurdodau'n rhoi'r stampiau ar goel ac felly 'roedd angen tua phum punt mewn arian parod cyn y gellid cyhoeddi pob rhifyn o'r *Amserau*.

Yn wir, fu fu'n rhaid oedi cyhoeddi'r newyddiadur o ganol Mai tan ddiwedd Mehefin 1844 tra oedd ymgais yn cael ei wneud i gasglu digon o arian oddi wrth ei ddyledwyr i barhau.

Nid oedd yr hysbysebion o gymorth ychwaith: ar ôl disgyn i ddau neu dri y rhifyn erbyn diwedd 1843, fe ddiflanasant yn gyfan gwbl o nifer o rifynnau gwanwyn a haf 1844. 'Doedd fawr o syndod, felly, pan ddaeth *Yr Amserau* i ben, ar ôl cyhoeddi rhagor o gwynion ynghylch anonestrwydd ei dderbynwyr, ar 19 Medi, 1844.

* * *

BU JOHN JONES am beth amser ar ôl hyn mewn cryn benbleth ynglŷn â'r papur, gan ystyried, ymhlith posibiliadau eraill, ei werthu fel y gellid ei gyhoeddi yng Nghymru, ond cyn diwedd 1844 'roedd cynllun ar y gweill i ail-gychwyn *Yr Amserau* yn Lerpwl.

Yn ôl tystiolaeth Hiraethog, ei gyfaill David Morgan o Lanfyllin, gweinidog Annibynnol a rhyddfrydwr pybyr, a lwyddodd yn ystod ymweliad â Lerpwl i argyhoeddi John Jones y dylid rhoi ail gyfle i'r papur. Awgrymodd y gellid perswadio cefnogwyr egwyddorion *Yr Amserau* - yn arbennig ymhlith Cymry Lerpwl - i ffurfio cwmni a fyddai'n dwyn y treuliau cyhoeddi.

Nid elw fyddai cymhelliad y Cymry hyn ond gwladgarwch a chefnogi egwyddorion ymneilltuaeth - yn arbennig yr 'egwyddor wirfoddol' mewn crefydd. Er i bynciau eraill ddod i'r blaen - yn arbennig addysg, a'r ymgyrch yn erbyn treth yr ŷd tan 1846 - prif thema'r *Amserau* o'r cychwyn oedd yr angenrheidrwydd o ddatgysylltu'r eglwys wladol, nid yng Nghymru yn unig ond yn holl wledydd Prydain.

Cefnogai Hiraethog ddatgysylltiad ers y 1830au cynnar gan gyhoeddi yn 1839, gyda chymorth Hugh Pugh a David Price, gylchgrawn byr-hoedlog gwrthsefydliadol, *Tarian Rhyddid a Dymchwelydd Gormes*.

Mabwysiadwyd cynllun David Morgan gan nifer o ymneilltuwyr Cymraeg Lerpwl, ac fe brynodd 'rhai ugeiniau' ohonynt y pedwar cant o gyfranddaliadau yn y cwmni.

Ymddengys i John Jones drosglwyddo'r hawlfraint o'r cwmni yn ddi-dâl ond parhaodd ei gysylltiad â'r papur fel argraffydd, trefnydd, ac ar yr ochr olygyddol, nes iddo adael Lerpwl am gyfnod o flwyddyn o fis Awst 1845 ymlaen, ac fe ail-gydiodd yn ei waith golygyddol ar ei ddychweliad i Lerpwl.

* * *

DENGYS enwau'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor rhwng 1845 a 1848 bwysigrwydd yr achos datgysylltiol fel cymhelliad i gefnogi'r *Amserau*. Llenwid y swydd annymunol o drysorydd gan William Evans, dilledydd cefnog ac Annibynnwr blaenllaw, a fu'n un o'r pedwar dirprwywr a ddanfonwyd gan Annibynwyr Cymraeg Lerpwl i'r gynhadledd fawr yn Llundain ddiwedd Ebrill 1844 lle sefydlwyd y British Anti-State Church Association, cymdeithas a ddaeth yn fwy adnabyddus fel y Liberation Society, fersiwn talfyredig o'r enw a fabwysiadwyd ganddi yn 1853.

'Roedd tri chynrychiolydd arall Annibynwyr Cymraeg Lerpwl i'r gynhadledd - Hiraethog, Ap Vychan a Thomas Pierce - i gyd ar bwyllgor *Yr Amserau*.

Er bod nifer o Annibynwyr eraill megis John Ambrose Lloyd, a weithredai fel ysgrifennydd y cwmni, yn gysylltiedig â'r papur, cafodd *Yr Amserau* ddigon o gefnogaeth ymhlith rhai o'r enwadau eraill i osgoi'r cyhuddiad o fod yn bapur enwadol.

Mae'n arbennig o ddiddorol sylwi ar y gefnogaeth ymhlith carfan ryddfrydig Methodistiaid Calfinaidd Lerpwl, o gofio i Sasiwn y Bala gondemnio'n unfrydol bleidwyr datgysylltiad mor ddiweddar â 1834.

Ymhlith y Methodistiaid a fu'n aelodau o bwyllgor *Yr Amserau* cawn y masnachwr glo cefnog a'r blaenor Matthew Jones, Abel Foulkes, dilledydd (a apwyntiwyd yn flaenor yn 1847), Thomas Morris, dilledydd arall a mab Ebenezer Morris, Joseph Parry, mab Moses Parry, Dinbych a'r Parch Joseph Williams.

Derbyniodd *Yr Amserau* gefnogaeth nifer o Fedyddwyr megis John Pritchard o Langollen, ond ymddengys nad ychydig aelodau o'r enwad oedd â chysylltiad uniongyrchol â rheolaeth y newyddiadur. Un ohonynt oedd yr hetiwr William Benjamin Jones, 'Ap P.A. Môn', ac mae'n bosibl mai Nefydd oedd y 'W. Roberts' a restrwyd fel aelod o bwyllgor 1845 yn unig.

* * *

AR ÔL yr ail-gychwyn ddechrau 1845, bu cynnydd sylweddol yng ngwerthiant y papur o 1250 yn Ionawr i dros 2000 erbyn diwedd y flwyddyn. Llwyddwyd i greu rhwydwaith o ddosbarthwyr mewn dros hanner cant o fannau yng Nghymru cyn diwedd gwanwyn 1845, gan gynnwys oddeutu pymtheg o ddosbarthwyr yng nghanolfannau diwydiannol de Cymru megis Merthyr, Aberdâr a Brynamwr.

Bu'r cynnydd yn nifer yr hysbysebion - deg, er enghraifft, yn rhifyn olaf Ebrill 1845 - yn ddigon i argyhoeddi'r pwyllgor y dylid ehangu'r *Amserau* o ganol Awst ymlaen er mwyn cynnwys rhagor o hysbysebion heb gyfyngu ar y newyddion.

Oherwydd cost ychwanegol y papur argraffu, bu'n rhaid codi pris y newyddiadur o dair ceiniog i dair a dimai, ond gobeithiai'r pwyllgor y gellid dychwelyd i'r pris gwreiddiol pe bai'r cynnydd yn nifer yr hysbysebion yn parhau.

Erbyn diwedd Awst 'roedd John Jones wedi gadael Lerpwl ac fe gynhyrchwyd y papur o hyn ymlaen tan haf 1848 gan M.J. Whitty ac W. Ellis. Ni ellir helaethu mwy yma ar yrfa ddiddorol Whitty heblaw awgrymu bod iddo le arbennig yn hanes y wasg yng Nghymru fel sylfaenydd un o'n dau bapur dyddiol 'cenedlaethol' yn 1855 - sef y *Liverpool Daily Post!*.

Ar yr olwg gyntaf, bu'r flwyddyn nesaf, 1846, hefyd yn gyfnod o gynnydd: cododd y gwerthiant i gyfartaledd o rhyw 2500 y rhifyn, ac fe gynhwysid oddeutu pymtheg o hysbysebion ym mhob rhifyn.

Er gwaethaf hyn, nid oedd *Yr Amserau* yn broffidiol: yn wir, oherwydd yr hen broblem o dderbynwyr esgeulus 'roedd yn parhau i golli arian yn gyson.

Bu'n rhaid gofyn i'r cyfranddalwyr am daliad ychwanegol o 5/- y cyfran ym mis Mawrth ac mae'n amlwg i bethau fynd o ddrwg i waeth yn ystod yr haf oherwydd diffyg gŵr profiadol yn lle John Jones i gadw'r cyfrifon. Methwyd ag erlid dyledwyr rhyfygus tra cythruddwyd talwyr cyson gan filiau a dalwyd ganddynt eisoes.

Apwyntiwyd 'gŵr ieuanc galluog' i osod trefn ar y cyfrifon ganol Gorffennaf 1846, ond mae'n amlwg iddo fethu'n lân â gwneud hynny: ddechrau Hydref, bu'n rhaid i'r pwyllgor esbonio na ellid gostwng pris *Yr Amserau* oherwydd y colledion. Byddai lleihad o ddimai yn y pris yn ychwanegu £130 y flwyddyn at y rhain.

Bu rhagor o gwyno ynglŷn â biliau anghywir ddiwedd Hydref ond yna, cyn diwedd Rhagfyr, ar awgrym Hiraethog, fe apwyntiwyd John Lloyd, cyn-gyhoeddwr *Cronicl yr Oes*, i fod yn gyfrifol am y cyfrifon.

*I'w Barhau*